# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 (Tŷ Hywel)**

Dyddiad: Dydd Llun, 24 Mawrth 2025

Amser: 13:15- 15:15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod.

(13:15-13:30)

## Cyfarfod cyhoeddus

(13:30)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

(13:30)

## 2 Papurau i'w nodi

(13:30)

**2.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol at y Cadeirydd ynghylch cyllid gofal plant**

(Tudalennau 1 - 3)

**2.2 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Deisebau at y Cadeirydd ynghylch mynd i'r afael â COVID hir yng Nghymru.**

(Tudalennau 4 - 5)

**2.3 Gohebiaeth gan National Energy Action at y Cadeirydd ynghylch Tlodi Tanwydd yng Nghymru.**

(Tudalennau 6 - 8)

**2.4 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol: diweddariad i'r concordat.**

(Tudalen 9)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.5 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at y Cadeirydd ynghylch y Strategaeth Tlodi Plant a'r Fframwaith Monitro.**

(Tudalennau 10 - 16)

**2.6 Gohebiaeth gan Charles Whitmore at y Cadeirydd ynghylch cryfhau a hyrwyddo Hawliau Dynol.**

(Tudalennau 17 - 19)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(13:35)

## Cyfarfod preifat

(13:30-15:00)

## 4 Yr ymchwiliad i dlodi tanwydd: ystyried yr adroddiad drafft.

(13:35- 13:55) (Tudalennau 20 - 41)

## 5 Cydlyniant cymdeithasol: sesiwn bord gron gydag Arweinwyr Mudo ac Ailsefydlu

(13:55 -14:55) (Tudalennau 42 - 58)

Anne Hubbard, Rheolwr, Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru.

Sue Forbes, Rheolwr Adsefydlu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Matt Miller, Arweinydd Anghenion Tai ac Adsefydlu, Cyngor Sir Caerfyrddin

Dave Jolly, Cydlynydd Adsefydlu, Cyngor Sir y Fflint

## 6 Cydlyniant cymdeithasol: ystyried y dystiolaeth.

(14:55-15:15)

**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DB/PO/0098/25

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

4 Mawrth 2025

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Chwefror ynglŷn ag ariannu gofal plant yng Nghymru.

Rydym yn benderfynol o gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i “fynd ati’n raddol i ehangu’r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau’r ddarpariaeth Gymraeg".

Yn ystod 2023-24 a 2024-25, rydym yn buddsoddi £46 miliwn i ehangu darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg er mwyn helpu i sicrhau effeithiau cadarnhaol hirdymor ar fywydau'r plant a'r teuluoedd hynny ledled Cymru sy'n wynebu'r heriau mwyaf. Rydym yn disgwyl y byddwn yn cefnogi mwy na 9,500 o blant dwy oed ledled Cymru i fanteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg yn ystod 2023-24 a 2024-25) ac rydym ar y trywydd iawn i gyflawni hynny. Dangosodd y Datganiad Ystadegol Cenedlaethol diweddaraf ar gyfer Dechrau'n Deg fod 6,885 o leoedd gofal plant ychwanegol ar gyfer plant 2 oed wedi cael eu cynnig yn 2023-24 fel rhan o Gam 2.

Rydym wedi gwneud penderfyniad bwriadol i ganolbwyntio adnoddau ar ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn y lle cyntaf. Mae hyn yn sicrhau bod cefnogaeth yn cyrraedd teuluoedd sydd ei angen fwyaf cyn gynted â phosibl. Rydym yn cydweithio'n agos â'r sector i feithrin capasiti yn raddol i sicrhau bod unrhyw gynnydd i'r ddarpariaeth yn gynaliadwy.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg a minnau wedi trafod buddsoddi mewn gofal plant fel rhan o drafodaethau'r Gyllideb. O ran ehangu gofal plant Dechrau'n Deg ymhellach (Cam 3), rwy'n falch o gadarnhau bod y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2025-26 a gyhoeddwyd ar 20 Chwefror yn cynnwys dros £25m o gyllid ychwanegol ar gyfer ehangu gofal plant o ansawdd uchel Dechrau'n Deg i fwy o blant ledled Cymru.

Mae'r awdurdodau lleol wedi nodi cynlluniau ynghylch sut y byddant yn parhau i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg yn eu hardaloedd. Bydd y cyllid ychwanegol hwn, a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Derfynol, yn sicrhau bod gofal plant ar gael i'r mwyafrif o blant dwy flwydd oed

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

a nodwyd yn y cynlluniau hynny yn 2025-26. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn ein galluogi i ariannu'r broses o ehangu gofal plant Dechrau'n Deg ym mhob ardal awdurdod lleol, gan ddod â Chymru gam yn agosach at ddarpariaeth gofal plant i bob plentyn dwy flwydd oed.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i gefnogi cynaliadwyedd y sector. Mae'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2025-26, hefyd yn darparu cynnydd o 28% i'r gyfradd fesul awr sy'n cael ei thalu ar hyn o bryd i ddarparwyr gofal plant sy'n darparu Cynnig Gofal Plant Cymru. Mae hyn yn golygu, o fis Ebrill eleni, y bydd y gyfradd yn cynyddu o £5 i £6.40 i gefnogi darparwyr sy'n wynebu pwysau ariannol. Mae hyn yn ychwanegol at ein cyhoeddiad diweddar ynghylch symud i adolygiadau blynyddol o'r gyfradd o 2025-26, a'n penderfyniad i wneud rhyddhad ardrethi o 100% ar gyfer pob safle gofal plant yn barhaol.

Rwy'n anfon copi o'm hymateb at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care

Y Pwyllgor Cydraddoldeb
a Chyfiawnder Cymdeithasol
—
Equality and Social Justice
Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Dawn Bowden, Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

14 Chwefror 2025

Annwyl Mark a Dawn,

Ar 10 Chwefror, gwnaethom drafod llythyr gan y Grŵp Cynghori Arbenigol ar Ofal Plant at y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol yn tynnu sylw at bryderon ynghylch y gyllideb ar gyfer gofal plant. Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu atoch i ofyn am eich barn mewn ymateb i'r pryderon hyn.

Yn ein hadroddiad, 'Eu Dyfodol: Ein Blaenoriaeth?', a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024, gwnaethom nodi'r angen am fuddsoddiad sylweddol mewn gofal plant i ddatblygu a gwella ansawdd, argaeledd a hygyrchedd y ddarpariaeth, gan gynnwys cyflwyno cam 3 y cynllun i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg.

A allwch roi sicrwydd y bydd dyraniad y Gyllideb Ddrafft yn ddigonol i alluogi'r gwaith o gyflwyno cam 3 y cynllun i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg i fynd rhagddo, ac i gyflawni'r ymrwymiad yn eich Rhaglen Lywodraethu i ehangu'r ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynnar fesul cam i gynnwys pob plentyn 2 oed? O ystyried pwysigrwydd buddsoddi mewn gofal plant i ymdrin â thlodi plant, a allwch hefyd amlinellu pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ar y mater hwn?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r pwyntiau hyn cyn y ddadl derfynol ar y gyllideb a drefnwyd ar gyfer 4 Mawrth i roi cyfle i'r Aelodau drafod eich ymateb.

Yn gywir

**Jenny Rathbone AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Copi at: Jane Hutt, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Eitem 2.2

**Y Pwyllgor Deisebau**

**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Cadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; y Pwyllgor Plant, Addysg a Phobl Ifanc; Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru

07 Mawrth 2025

Annwyl Gadeirydd

**Deiseb P-06-1488 Sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i Fynd i'r Afael â'r Argyfwng COVID Hir yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb uchod yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror, ynghyd â gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r deisebydd.

Yn ystod y drafodaeth, nodais bwyntiau allweddol a godwyd yn fy nghyfarfod blaenorol â'r deisebwyr. Cydnabu'r Aelodau gwmpas eang y materion a godwyd, sy'n ymestyn y tu hwnt i gylch gorchwyl y Pwyllgor Deisebau. Roedd yn amlwg y byddai mynd i'r afael â'r pryderon hyn yn gofyn am strategaeth drawslywodraethol gan Lywodraeth Cymru.

O ganlyniad, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Prif Weinidog – gan gopïo Ysgrifenyddion Cabinet perthnasol i mewn, er ymwybyddiaeth – i holi am strategaeth draws-bortffolio'r Llywodraeth ar gyfer mynd i'r afael â COVID hir, yn enwedig mewn perthynas ag unigolion sydd naill ai'n ddi-waith, neu'n wynebu anawsterau o ran dychwelyd i'r gwaith, oherwydd COVID hir sydd, o bosibl, heb gael ei ddiagnosio.

At hynny, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at bwyllgorau pwnc perthnasol y Senedd i ofyn am ragor o wybodaeth am eich gwaith ymchwilio parhaus neu arfaethedig ynghylch dull strategol Llywodraeth Cymru o ymdrin â COVID hir.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma: P-06-1488 Sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i Fynd i'r Afael â'r Argyfwng COVID Hir yng Nghymru.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb drwy e-bost at y tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir,



Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

[Received via email]

Dear Equality & Social Justice Committee,

As you will know, the Senedd will debate the Welsh Government's final budget for 2025/26 on Tuesday 6 March. The Warm Homes Programme budget is increasing by only £2.5m to £37.5m for the upcoming year due to underspend from 2024/25. Please find some key points below Members may wish to consider ahead of the debate.

If you have any questions, please do not hesitate to contact us.

Best wishes,

Maisie

---

- Fuel poverty continues to be a deep and wide issue in Wales, with the Welsh Government estimating that virtually all (up to 98%) of our lower income households could be living in fuel poverty in 2022. During this time, energy prices were around £2,000 per year.
    - On Tuesday 25 February, Ofgem announced a third consecutive rise in energy prices to £1,849 for the average GB consumer from 1 April 2025. As ever, Wales continues to face higher rates. On average, those in north Wales will pay £1,947 and £1,873 in south, making north Wales THE most expensive region across GB and south Wales the third. We are now very close to the prices that were used to calculate the Welsh Government's fuel poverty estimates in 2022 (especially when you also factor in Ofgem's change in the way it since calculates the price cap).
    - A nationally representative survey by National Energy Action Cymru and YouGov carried out in January 2025 and published this week found that only **38% of adults in Wales say they have been able to comfortably afford their heating bill in the last three months without needing to ration usage or make cuts elsewhere** while

**over half (56%) say they expect to ration their usage in the coming three months.**

- There **remains an urgent need to significantly boost investment in the Warm Homes Programme,** the Welsh Government's flagship programme to tackle fuel poverty, to improve the energy efficiency of our homes. The cheapest energy is the energy we do not use. Reducing needless energy waste will help to reduce energy bills and provide people with warm, healthy homes, year after year.
- Despite the ongoing urgent need, funding for the Warm Home Programme remains largely stagnant, with a budget of £37.5m for 2025-26, including £2.5m slippage carried over from the previous year.
- Investment in the Programme has remained largely unchanged over the last few years, particularly when considering inflation (e.g., £27m in 2021 is thought to be equivalent to around £32m today):

| **Budget year** | **Investment into Warm Homes Programme** |
|---|---|
| 2021-2022 | £27m |
| 2022-2023 | £30m |
| 2023-2024 | £35m |
| 2024-2025 | £35m |
| 2025-2026 | £37.5m (incl. £2.5m slippage) |

- The Programme's current rate of delivery is just over 1,600 homes per year, meaning – as NEA and the Bevan Foundation highlighted in a joint briefing back in December 2023 - it will take well over a century to improve the energy efficiency of the homes of all our lower-income households currently estimated to be in fuel poverty. The current investment in the scheme is evidently not sufficient to meet need or targets.
- To meet its targets outlined in the *Tackling Fuel Poverty 2021 – 2035* plan to dramatically reduce fuel poverty and eradicate severe fuel poverty as far as it reasonably practicable, as well as reduce carbon emissions and ensure a fair and affordable transition to net zero, it is vital that the Welsh Government significantly increases funding for the Programme.

- National Energy Action has been urging the Welsh government to significantly increase the funding of the Programme, including by utilising funds from the UK Government's Warm Homes Plan, which is set to invest £3.4 billion over three years and will potentially yield around £170m in consequentials for Wales.

**Maisie Chatfield (she/her)**

**Policy & Campaigns Officer (Wales)**

**Swyddog Polisi & Ymgyrchoedd**

**National Energy Action (NEA)** [nea.org.uk](nea.org.uk)

**National Energy Action is an independent charity Registration No. 290511**

**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH/PO/96/25

Mike Hedges AS
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

28 Chwefror 2025

Annwyl Mike,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, ysgrifennaf i'ch hysbysu bod y Concordat rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd gyntaf ar 23 Mai 2013, wedi'i ddiweddaru. Cyhoeddwyd y Concordat diwygiedig ar 24 Chwefror 2025 ac mae i'w weld yma.

Mae'r Concordat hwn yn sefydlu fframwaith cytunedig i sicrhau cysylltiad a chydweithrediad agos parhaus rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn ceisio sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mewn modd effeithlon ac effeithiol ar bob mater sy'n deillio o gyfrifoldebau'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar swyddogaethau gweinidogion Cymru ac i'r gwrthwyneb.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Jane Hutt

**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt @gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH/PO/114/25

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales

14 Mawrth 2025

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 21 Chwefror ar Strategaeth a Fframwaith Monitro Tlodi Plant, yn gofyn am ragor o wybodaeth yn dilyn sesiwn briffio technegol gan fy swyddogion ar 10 Chwefror.

Nid adrodd ar bob mesur a dangosydd tlodi posibl yw diben y Fframwaith Monitro, ac nid yw'n fwriad iddo ddisodli dangosyddion tlodi Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gydnabyddir yn genedlaethol. Ei ddiben yw rhoi mewnwelediad, fel rhan o'r adroddiadau ehangach a lunnir bob tair blynedd ar y Strategaeth Tlodi Plant, i'r cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion y Strategaeth, a'r gwahaniaeth y mae pwerau a dylanwad Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fywydau pobl yng Nghymru. Gall gwahaniaethau o'r fath fynd o'r golwg yn yr ystadegau pennawd cenedlaethol ar dlodi oherwydd dylanwad ar lefel Llywodraeth y DU. O symud y ffocws y tu hwnt i'r ystadegau hyn yn benodol, gwelir hefyd gymaint o elfennau sydd yna i dlodi plant yng Nghymru.

**Data cyfredol a data tueddiadau o ran mesurau'r maes safon byw**

Gellir dod o hyd i'r data y gwnaethoch ofyn amdano ar y mesurau ym maes safon byw a restrir isod, gan gynnwys y tueddiadau diweddar, yn Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2022 i Mawrth 2023 | LLYW.CYMRU. Efallai yr hoffech wybod y bydd y diweddariad nesaf, sy'n cwmpasu'r cyfnod hyd at fis Mawrth 2024, yn cael ei gyhoeddi ar 27 Mawrth 2025, a bydd ar gael yn Tlodi incwm cymharol | LLYW. CYMRU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Canran y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl talu costau tai)
- Canran y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl talu costau tai), yn ôl nifer y plant ar yr aelwyd
- Y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl talu costau tai), yn ôl statws economaidd yr aelwyd
- Canran y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl talu costau tai), yn ôl anabledd yn y teulu.

Mae data ar blant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl talu costau tai), yn ôl y math o deulu, i'w gweld ar wefan Stats Cymru.

Gellir gweld data ar ganran y plant sydd mewn amddifadedd materol yn Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol | LLYW. CYMRU (dangosydd 19) neu ar wefan Stats Cymru (yn y ddau achos, bydd angen ichi ddewis oed 16-24).

Yn olaf, mae'r data ar ganran y plant ysgol uwchradd sy'n bwyta brecwast bob dydd o'r wythnos, yn ôl cyfoeth y teulu, i'w gweld yn Dangosfwrdd Iechyd a Lles Plant. Mae data 2017 a 2023 wedi'u cynnwys yn Atodiad A i'r llythyr hwn.

**Y gwahaniaeth rhwng allbynnau a chanlyniadau**

Yn eich llythyr, roeddech yn gofyn am nodyn yn crynhoi'r gwahaniaeth rhwng allbynnau a chanlyniadau, a pham mae'r rhain yn arwyddocaol yng nghyd-destun y Fframwaith Monitro. Mae'r Fframwaith Monitro yn fframwaith sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Felly, mae'r gwahaniaeth yn bwysig i sicrhau bod y Fframwaith yn adrodd ar y pethau cywir, sef y canlyniadau sy'n dangos yn y ffordd orau effaith y Fframwaith a phwerau Llywodraeth Cymru i weithredu yn erbyn tlodi plant.

Wrth ddatblygu'r Fframwaith, mae'r gwahaniaethau canlynol rhwng allbynnau a chanlyniadau wedi'u sefydlu.

- Ystyrir bod allbynnau yn elfennau diriaethol a gyflawnir yn sgil ymyriad polisi penodol (e.e. nifer y lleoedd gofal plant a ddarperir). - Newidiadau penodol yr ydym am eu gweld yn sgil ymyriadau polisi yw canlyniadau, h.y. o ganlyniad i ddarparu neu gyflawni gweithgareddau neu allbynnau penodol.

Er y bydd y Fframwaith Monitro yn adrodd yn erbyn y canlyniadau a nodwyd, ein bwriad yw dangos cynnydd yn erbyn allbynnau polisi yn elfen adroddiad cynnydd polisi yr adroddiad tair blynedd ar ein Strategaeth Tlodi Plant.

Fel y nododd yr Athro Hick yn ei adolygiad annibynnol, bydd y Fframwaith hwn sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn adnodd defnyddiol iawn ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd gweithgareddau Llywodraeth Cymru yn erbyn Strategaeth Tlodi Plant 2024, o'i ystyried ochr yn ochr â thystiolaeth profiad byw pobl ifanc a dadansoddiad o allbynnau polisi.

**Y rhesymeg y tu ôl i ganolbwyntio ar ddangosyddion cenedlaethol**

Roeddech yn gofyn yn eich llythyr am esboniad o'r rhesymeg y tu ôl i ganolbwyntio ar ddangosyddion cenedlaethol. Pwrpas y Fframwaith Monitro yw adrodd ar ddata rheolaidd, cadarn a chredadwy ar ystod o ddangosyddion a mesurau tlodi plant ymhlith y boblogaeth, a all roi mewnwelediad i effaith a chyfeiriad y Strategaeth Tlodi Plant a'r canlyniadau cysylltiedig i blant a phobl ifanc.

Mae gennym ddangosyddion cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol eisoes, a bennwyd gan Weinidogion Cymru yn 2016, sy'n ein helpu i fesur ein cynnydd fel cenedl dros amser. Dywedodd y Prif Ystadegydd a'r Bwrdd Tystiolaeth Strategol wrth swyddogion y dylai unrhyw fframweithiau monitro a ddatblygir gan Lywodraeth Cymru ystyried bob amser cynnwys dangosyddion cenedlaethol perthnasol yn y lle cyntaf. Adroddir ar y rhestr lawn o ddangosyddion cenedlaethol yn flynyddol yn adroddiad Llesiant Cymru (a gyhoeddwyd ddiwethaf ym mis Medi 2024). Mae'r dangosyddion cenedlaethol a'u mesurau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn ein Fframwaith Monitro yn darparu ffordd gadarn a chyson o asesu ein cynnydd yn erbyn y Strategaeth Tlodi Plant dros y tymor hir.

Fodd bynnag, o ran plant a phobl ifanc, cydnabyddir bod y dangosyddion cenedlaethol, i raddau helaeth, yn ymwneud â theuluoedd â phlant a phobl ifanc 16 i 24 oed, a bod llai o ddata ar gael ar blant o dan 16 oed. Mae'r dystiolaeth ar ganlyniadau mewn perthynas â'r grŵp iau hwn felly wedi'i hategu gan ddata a gymerwyd o'r tu allan i'r dangosyddion cenedlaethol, yn benodol o Arolygon Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion.

**Cynnwys ac eithrio mesurau penodol**

Nid adlewyrchu pob canlyniad posibl i blant a phobl ifanc mewn tlodi yw bwriad y Fframwaith Monitro, ond mae'n rhoi mewnwelediad i effaith a chyfeiriad canlyniadau'r Strategaeth Tlodi Plant i blant a phobl ifanc. Efallai y bydd y Pwyllgor am nodi y gellir gweld set ehangach o ddata sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc yn adroddiad Llesiant Plant a Phobl Ifanc Cymru a Dangosfwrdd Iechyd a Lles Plant y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion.

Fel y nodais uchod, prif ffocws y fframwaith yw'r dangosyddion cenedlaethol. Wrth ystyried nifer y dangosyddion i'w cynnwys, roeddem yn ymwybodol o farn yr Athro Hick, sef er bod strwythurau â mwy o ddimensiynau yn cynrychioli'n well brofiad yr amrywiol fathau o dlodi a lles plant, y gall hyn amharu ar eglurder.


Wrth ystyried pa ddangosydd neu fesur i'w gynnwys yn y fframwaith, roedd gofyn (lle bo'n bosibl) i'r dangosydd a'i fesurau cysylltiedig:

- Fod yn berthnasol i'r Strategaeth Tlodi Plant
- Cynrychioli canlyniad ar gyfer plant a phobl ifanc
- Bod yn seiliedig ar ddata cadarn sydd ar gael fel mater o drefn
- Gallu cael ei ddehongli'n glir iawn
- Ychwanegu gwerth a pheidio â dyblygu gwybodaeth.

Byddwn yn parhau i ymchwilio i ffyrdd ymarferol o sicrhau data o ansawdd i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau, lle mae rhesymeg glir dros wneud hynny. Bydd angen ystyried penderfyniadau o'r fath yn ofalus gan gadw cyngor yr Athro Hick mewn cof, sef y byddai mesurau ychwanegol yn gwneud y dasg o grynhoi'r gwersi sy'n deillio o fframwaith monitro cymhleth yn fwy heriol.

Er y bydd gan bobl safbwyntiau gwahanol ynghylch cynnwys neu eithrio mesurau penodol, mae'r dull systematig a gymerwyd gan y swyddogion wedi sicrhau cysondeb o ran sut y defnyddir meini prawf. Adlewyrchir hyn yng nghasgliad adolygiad annibynnol yr Athro Hick y bydd y Fframwaith Monitro yn sail i werthusiad cyfoethog o ganlyniadau cymdeithasol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Yn gywir,




**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip

# Atodiad A


**Bwyta brecwast bob diwrnod o'r wythnos, canran, pobl, 11-16 oed, sgoriau isel, canol ac uchel Graddfa Cyfoeth Teulu (FAS), Cymru, 2017**

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data SHRN




**Bwyta brecwast bob diwrnod o'r wythnos, canran, pobl, 11-16 oed, sgoriau isel, canol ac uchel Graddfa Cyfoeth Teulu (FAS), Cymru, 2023**

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data SHRN



**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder
Cymdeithasol, y Trefnydd
a'r Prif Chwip

21 Chwefror 2025

Annwyl Jane,

Strategaeth a Fframwaith Monitro Tlodi Plant

Roedd yr Aelodau'n ddiolchgar am y sesiwn briffio technegol gan swyddogion ar 10 Chwefror, a nodwyd yr angen am ragor o wybodaeth ac eglurder ynghylch agweddau ar y Fframwaith Monitro Tlodi Plant. Cytunodd swyddogion i wneud gwaith dilynol mewn sawl maes lle maent yn ymwneud â materion ffeithiol, ond mae'n fwy priodol cyfeirio rhai o'n cwestiynau atoch chi fel y gweinidog cyfrifol. Yn y cyd-destun hwn, byddem felly'n gwerthfawrogi rhagor o wybodaeth fel y nodir isod.

Cytunodd swyddogion i ddarparu:

- y gyfradd gyfredol ar gyfer y 7 mesur a restrir ym maes safon byw y Fframwaith a data am dueddiadau mewn perthynas â'r rhain; a
- nodyn ysgrifenedig yn crynhoi'r gwahaniaeth rhwng allbynnau a chanlyniadau a'r ffyrdd y mae'r rhain yn arwyddocaol yng nghyd-destun y fframwaith monitro.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r canlynol:

- esboniad o'r rhesymeg sy'n sail i ganolbwyntio ar ddangosyddion cenedlaethol a hepgor dangosyddion perthnasol eraill,
- pam mae'r mesurau canlynol wedi'u heithrio neu nad oes modd eu cynnwys yn y Fframwaith;
  - yn y maes cymunedau cynhwysol: mesurau ar nifer y plant mewn tlodi sydd mewn perygl o fod yn ddigartref; a nifer y plant mewn tlodi yn ôl deiliadaeth tai;
  - yn y maes addysg: canran y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim sy'n astudio Safon Uwch/yn mynd i'r brifysgol;



Senedd Cymru
Welsh Parliament

        - yn y maes llesiant: mesurau ar gyfran y plant sy'n cael gofal ysbyty wedi'i gynllunio/heb ei gynllunio neu gyfraddau pydredd dannedd ymhlith plant
    - pam na chafodd y dangosydd cenedlaethol ar gyfer canran y plant â dau neu fwy o ymddygiadau ffordd iach o fyw ei gynnwys fel un o'r dangosyddion perthnasol yn y fframwaith.
    - pam y cafodd canran y plant ysgol uwchradd sy'n bwyta brecwast bob diwrnod o'r wythnos yn ôl cyfoeth teuluol ei gynnwys fel mesur, o ystyried bod amryw resymau pam nad yw plant yn y grŵp oedran hwn yn bwyta brecwast.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych a byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech anfon ymateb erbyn 14 Mawrth.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

**Jenny Rathbone MS**

Chair, Equality and Social Justice Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay, Cardiff
CF99 1SN

Dear Jenny,

16 March 2025

Re: Strengthening and Advancing Equality and Human Rights

Many thanks for your letter dated 3 February 2025 requesting further comments on the progress of the Legislative Options Working Group on Human Rights (LOWG). I am responding in my capacity as Chair of LOWG and will therefore limit my response to the progress of LOWG's work on recommendations 1 and 25 of the Strengthening and Advancing Equality and Human Rights (SAEHR) report, as these are the focus of the group's remit.

I note that the letters from the Equality and Human Rights Commission and the Future Generations Commissioner do not substantively address LOWG's work, so I do not feel it appropriate to comment much on these. Similarly, the Law Society's response does not discuss the substance of LOWG's work, but as you have specifically asked me to reflect on it, I will offer some general observations below.

**1. Progress on addressing the capacity issues identified during the oral evidence session on 16 September 2024**

Using funding I secured from voluntary sector sources, I employed Melissa Wood from mid-October 2024 to the end of December 2025 to support LOWG in applying the methodology the group had developed. The right to education under CEDAW (Article 10) and CRDP (Article 24) was selected as an initial in-depth pilot.

As this work progressed, it became clear that the methodology required further refinement before it could be applied to the entirety of CEDAW and CRDP and, in due course, to the incorporation of other treaties into Welsh law. Since then, Melissa Wood, Professor Simon Hoffman, and I have been working to refine this approach. As this required more time, the Welsh Government made additional resources available for Melissa to continue supporting LOWG's work until the end of March 2025.

Work is now progressing to complete this pilot and finalise the methodology so it can be applied to the remainder of CEDAW and CRDP.

**2. Views on timescales and the amount of progress that can reasonably be expected before the end of the Senedd term**

LOWG is using Melissa's pilot of the methodology to develop a body of work and a timeline for producing recommendations by December 2025. I am in final discussions with the Welsh Government regarding resourcing LOWG to enable delivery against this timeline.

While this proposal is still subject to LOWG's approval and the Welsh Government's final decision on resourcing, if taken forward, it would aim for the following:

(1) **April–June 2025**: Analysis of the UNCRDP

(2) **July–September 2025**: Analysis of CEDAW
(3) **September–December 2025**: Drafting of the LOWG report

This work is intended to provide an evidentiary foundation for continuing these efforts beyond the Senedd elections, as well as informing discussions in the run-up to them.

LOWG members have consistently emphasised that progress has been constrained by the lack of dedicated resources. While it was understood that previous budgets did not allow for funding this work, it has only been since October 2024 that we have had the capacity to accelerate progress. LOWG members have voluntarily contributed significant time to this work, for which I am grateful. However, it is important to acknowledge that securing funding late in the Senedd term, and on an ad hoc, short-term basis, has made it difficult to plan effectively for work of this scale. The nature of the work is high-volume, novel, and complex, particularly given the need to account for constitutional considerations. Additionally, the group has been asked to explore both legislative and non-legislative options, further expanding the scope of the work.

**On the Cabinet Secretary's statements regarding timescales**

The Welsh Government's response to the SAEHR report identified the formation of LOWG as the next step in bringing forward detailed proposals for incorporation in Wales.

I believe it is for the Welsh Government to determine whether it wishes to wait for LOWG's recommendations before advancing this work further, or whether other preparatory steps should proceed in parallel. Similarly, decisions regarding the timing and frequency of updates to the Senedd are for the Government and Senedd to determine. Independently of this, I of course remain available to provide updates in writing or in person should the Committee find that helpful.

**3. Response to the Committee's observation on factors impacting progress**

I note the Committee's suggestion that slight differences have emerged in factors affecting progress. Below, I set out some key considerations:

Regressive human rights protections introduced by the previous UK Government had some impact on LOWG's work. They introduced uncertainty and placed additional demands on the capacity of LOWG members, myself included, as we were required to respond to these legislative developments. One significant example was the UK Bill of Rights Bill. While LOWG welcomed its withdrawal, this did not affect our core rationale: the need to strengthen human rights protections in Wales, including through incorporation. The SAEHR report's recommendations 1 and 25 were developed independently of any UK-level proposals, and LOWG members believe the case for incorporation is now stronger than ever, given the wider global and domestic political and socio-economic contexts

Additionally, LOWG has closely followed progress in Scotland, particularly efforts to incorporate the UN Convention on the Rights of the Child (UNCRC).

These developments further highlight the complexity of the work LOWG is undertaking given the intricacies of devolved and non-devolved competency in this area.

In particular the LOWG is aware of the Supreme Court decision on the (initial) UNCRC incorporation Bill in Scotland and will take the decision fully into account in its work. Our objective is to advise the Welsh Government on how best to strengthen and advance human rights in Wales, *within the devolution settlement.* By way of comment, the LOWG takes note of the fact that the Supreme Court determined the Bill beyond the competence of the Scottish Parliament on very narrow grounds relating to the drafting of specific sections within the Bill. We also note that, since the Supreme Court decision, the Scottish Parliament has enacted legislation to incorporate the UNCRC in Scottish law, drafted in a way that avoided the competence problem identified, and that this revised legislation was not challenged by the UK Government.

Importantly, the Supreme Court did not express any reservation over the possibility that a devolved nation might seek to legislate to incorporate human rights, and indeed noted that this is already the case in Wales

**4. The Law Society's correspondence**

The Law Society's response does not address the substantive remit of LOWG's work, namely, recommendations 1 and 25 of the SAEHR report on incorporating justiciable human rights. Furthermore, as their response states, the Law Society is an independent organisation responsible for setting its own work programme in Wales. It would therefore not be appropriate for me to comment directly on their position.

However, their response raises two important overarching points.

(1) That there are significant capacity limitations for salient stakeholders to be involved in work on strengthening human rights in Wales.
(2) That this lack of capacity cuts across many sectors and organisations – including the voluntary sector, academia and the legal profession. This is evident from LOWG's own experience, and is further illustrated by the other correspondence you have received from the EHRC and Future Generations Commissioner

These constraints are relevant at this stage of LOWG's work. Indeed, feedback from our consultation with stakeholders in Scotland emphasised the importance of involving the legal profession early in the process. However, there are also longer-term considerations. As Wales' human rights legal frameworks develop, these capacity constraints will need to be examined in greater detail as changes may have implications for the legal profession, public legal education, legal education in law schools, advocacy services, voluntary sector support services, public authorities, as well as broader access to justice considerations.

LOWG members remain committed to progressing this work and in the meantime I remain at the Committee's disposal should further updates or discussions be of assistance.

Please accept my apologies for the delay in getting back to you, this has been an especially busy period.

I appreciate the opportunity to engage with the Committee on these important issues and look forward to continued dialogue.

Yours sincerely,

Charles Whitmore, Chair of the Human Rights Legislative Options Working Group

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon